Mae’r hysbysiad preifatrwydd hwn wedi’i fwriadu i roi gwybod i chi sut rydym ni’n casglu, defnyddio, rhannu a gwarchod eich gwybodaeth bersonol yn ystod unrhyw gyfranogiad gyda darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid yn Sir y Fflint. Darllenwch yr hysbysiad hwn yn ofalus i ddeall ein harferion.

**Pa wybodaeth bersonol ydym yn ei chasglu?**

- Enw llawn
- Dyddiad geni
- Rhyw
- Ethnigrwydd
- Gwybodaeth Gyswllt (cyfeiriad, e-bost, rhif ffôn)
- Gwybodaeth Cyswllt mewn Argyfwng
- Gwybodaeth Feddygol (alergeddau, cyflyrau meddygol, anableddau)

**Beth ydym yn ei wneud gyda’ch data personol ac at ba ddiben?**

Bydd eich data’n cael ei brosesu gan Gyngor Sir y Fflint yn rhan o’n tasg gyhoeddus at ddibenion penodol yn rhan o ddyletswydd awdurdod lleol i sicrhau gwasanaethau a gweithgareddau i bobl ifanc rhwng 13 a 19 oed, a rhai sydd ag anawsterau dysgu hyd at 24 oed, i wella eu lles, fel mae wedi’i ddiffinio yn Is-adran 13 dan Adran 507B yn Neddf Addysg 1996.

Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid yn casglu data er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu’r gwasanaeth gorau i chi a’ch gwarchod tra byddwch chi’n cymryd rhan yn ein gweithgareddau. Mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion:

- Eich cofrestru ar ein system gleientiaid i gofnodi eich bod yn cymryd rhan yn ein sesiynau.
- Gwarchod eich diogelwch a’ch lles chi ac eraill wrth ddod i’n sesiynau.
- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth am ddarpariaeth arall a allai fod o ddiddordeb i chi.
- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a gofynion adrodd.

**Categorïau arbennig o ddata personol**

Bydd eich data categori arbennig (meddygol, iechyd ac ethnigrwydd) yn cael ei brosesu gan Gyngor Sir y Fflint dan Erthygl 9; (g) mae angen prosesu am resymau ynghlwm â thasg gyhoeddus arwyddocaol, parchu hanfod yr hawl i ddiogelwch data a darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i warchod hawliau a buddiannau sylfaenol gwrthrych y data.

**Pryd fyddwn ni’n dinistrio neu’n dileu eich data?**

Mae ein gwasanaeth yn darparu ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei dileu 6 blynedd ar ôl i chi fod yn/gymryd rhan yn unrhyw weithgaredd gyda’r gwasanaeth ddiwethaf neu ar eich pen-blwydd yn 25 oed, pa bynnag un ddaw gyntaf.

**A fyddai fy nata yn cael ei rannu gydag unrhyw bartïon eraill?**

Ni fydd eich data ond yn cael ei rannu gyda gwasanaethau eraill, fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Heddlu Gogledd Cymru, neu weithiwr iechyd proffesiynol, os bydd digwyddiad neu wybodaeth yn cael ei datgelu a allai beri risg diogelu i chi neu rywun arall. Mae hyn yn ofynnol ar Gyngor Sir y Fflint dan Ddeddf Plant 2004 y DU i wella diogelwch plant a phobl ifanc.

**Alla' i gael copi o'r wybodaeth sydd gennych amdanaf?**

Gallwch, mae gennych hawl i wybod pa wybodaeth sy'n cael ei chadw a gofyn am gopïau. Mae nifer o ffyrdd y gallwch wneud hyn; y ffordd hawsaf yw mynd i wefan y Cyngor a llenwi ffurflen.

(https://digital.flintshire.gov.uk/EFORMS/Eform/Create?service=Individual+Rights+Request&lang=C).

Gallwch hefyd anfon e-bost at dataprotection@flintshire.gov.uk, ffonio 01352 702800 neu ysgrifennu at:

Tîm Diogelu Data – Llywodraethu
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NR

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan –

http://www.flintshire.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx

**Ble alla' i gwyno os nad ydw i'n hapus?**

Os nad ydych yn hapus â'r ffordd mae eich data personol wedi cael ei drin, er enghraifft os ydych yn credu bod gwybodaeth amdanoch chi'n anghywir a'ch bod am ei chywiro neu os ydych yn credu ei bod wedi'i chamddefnyddio, gallwch anfon e-bost at dataprotection@flintshire.gov.uk, ffonio 01352 702800 neu ysgrifennu at:

Tîm Diogelu Data – Llywodraethu
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NR

Yn y DU, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n gwarchod hawliau gwybodaeth ac mae gennych hawl i gwyno'n uniongyrchol iddynt os nad ydych yn hapus â'r ffordd mae'r Cyngor wedi trin eich data. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar eu gwefan ar https://cy.ico.org.uk/make-a-complaint/ neu drwy ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.